OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 895 (Cy.115)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Cymuned) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*26 Mawrth 2003*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 173(1), (2) a (4), 175(1A), 177(1)(c), 177(2), 178(1) a 270(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**) sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**) a'r pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 100(1), (4), (5), (6) a (7) a 105(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**3**)(ar ôl ymgynghori â'r cynrychiolwyr llywodraeth leol hynny a'r personau eraill y mae'n barnu bod angen ymgynghori â hwy).

RHAN I

Cyffredinol

Enw, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Cymuned) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "awdurdod" ("*authority*") yw cyngor cymuned;

ystyr "blwyddyn" ("*year*") yw deuddeng mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth;

ystyr "Deddf 1972" ("*the 1972 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972;

(**1**) 1972 p.70.
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) 2000 p.22.

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 2000;

ystyr "Rheoliadau 1991" ("*the 1991 Regulations*") yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau) 1991 fel y'u diwygiwyd(**4**);

ystyr "Rheoliadau 2001" ("*the 2001 Regulations*") yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau) (Diwygio) (Cymru) 2001(**5**).

Cyrff ac awdurdodau perthnasol a ragnodwyd

3. Rhagnodir Cynghorau Cymuned yn awdurdodau perthnasol at ddibenion adran 100(1)(b) o Ddeddf 2000.

RHAN II

Lwfansau Cynghorwyr

Dehongli

4.—(1) Dehonglir cyfeiriadau yn y Rhan hon at aelod o awdurdod sy'n gynghorydd fel cyfeiriadau at aelod etholedig o awdurdod a dehonglir cyfeiriadau at aelod nad yw'n gynghorydd fel cyfeiriadau at aelod sy'n aelod cyfetholedig o awdurdod.

(2) At ddibenion y Rhan hon bydd cyfnod swydd aelod o awdurdod sydd yn gynghorydd yn dechrau ar y dyddiad y mae'r aelod hwnnw'n gwneud datganiad ei fod yn derbyn y swydd honno o dan adran 83(4) o Ddeddf 1972.

Lwfansau presenoldeb

5.—(1) Y swm a ragnodwyd at ddibenion adran 173(1) o Ddeddf 1972 (Lwfans presenoldeb) yw £32.46 am unrhyw gyfnod nad yw'n fwy na 24 awr ac i'r diben hwn mae cyfnod o 24 awr yn dechrau am 3am.

(2) Ni fydd gan aelod hawl i daliad o fwy nag un lwfans presenoldeb mewn perthynas ag unrhyw gyfnod o 24 awr.

(3) Ni fydd gan aelod hawl i daliad o lwfans presenoldeb—

(a) o ran dyletswydd wedi'i chymeradwyo y mae gan yr aelod hwnnw hawl i daliad lwfans colled ariannol mewn perthynas â hi o dan adran 173 o Ddeddf 1972; neu

(b) pe bai taliad o'r fath yn groes i ddarpariaeth a wneir drwy neu o dan unrhyw ddeddfiad.

Lwfans colled ariannol

6. Y swm a ragnodir at ddibenion adran 173(4) o Ddeddf 1972 (lwfans colled ariannol) yw —

(a) am gyfnod nad yw'n fwy na 4 awr, £30.05;

(b) am gyfnod sy'n fwy na 4 awr ond nad yw'n fwy na 24 awr, £60.11;

(c) am gyfnod sydd yn fwy na 24 awr, y cyfanswm o £60.11 a'r swm hwnnw a bennir yn is-baragraff (a) neu (b) fel y bo'n briodol i nifer yr oriau y mae'r cyfnod yn fwy na 24 awr.

(**4**) O.S. 1991/351, a ddiwygiwyd gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau) (Diwygio) (Cymru) 2001 (O.S. 2001/2781 (Cy.234)).
(**5**) O.S. 2001/2781 (Cy.234).

RHAN III

Lwfansau — Darpariaeth Bellach

Swm y lwfansau a.y.y.b.

7. Mewn perthynas â lwfansau o dan Ran II rhaid i awdurdod ddarparu, yn ddarostyngedig i Reoliadau 5 a 6, ar gyfer addasu'r lwfansau hynny'n flynyddol o 1 Ebrill ym mhob blwyddyn a hynny'n hafal i'r ffigur a gyhoeddir ar gyfer y flwyddyn flaenorol fel y cynnydd canrannol (os o gwbl) yn y mynegai i'r Cyflog Cyfartalog i Wrywod Nad Ydynt yn Gweithio â Dwylo yn yr Archwiliad Enillion Newydd a gyhoeddir yn flynyddol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Dewisiadau

8. Caiff aelod, drwy hysbysiad ysgrifenedig a roddir i swyddog priodol yr awdurdod, ddewis peidio â derbyn unrhyw ran o hawl yr aelod hwnnw i gael lwfans o dan y Rheoliadau hyn.

RHAN IV

Lwfansau Eraill

Diffiniad o "ddyletswydd wedi'i chymeradwyo"

9.—(1) Yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau a eithrir gan baragraff (2), at ddibenion adrannau 173, 175 a 176 o Ddeddf 1972 ystyr "dyletswydd wedi'i chymeradwyo" yw —

(a) unrhyw rai o'r dyletswyddau canlynol —

(i) presenoldeb mewn cyfarfod o'r awdurdod neu o unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor o'r awdurdod neu o unrhyw gorff arall y mae'r awdurdod yn penodi neu'n enwebu iddo, neu o unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor o gorff o'r fath;

(ii) presenoldeb mewn unrhyw gyfarfod arall yr awdurdodir ei gynnal gan yr awdurdod, neu bwyllgor neu is-bwyllgor o'r awdurdod, neu gyd-bwyllgor o'r awdurdod ac un awdurdod arall neu fwy, neu is-bwyllgor o gyd-bwyllgor o'r fath, ar yr amod —

(aa) os yw'r awdurdod wedi'i rannu yn ddau grŵp gwleidyddol neu fwy, y mae'n gyfarfod y gwahoddwyd aelodau o ddau grŵp o'r fath o leiaf iddo, neu

(bb) os na rannwyd yr awdurdod yn y fath fodd, y mae'n gyfarfod y gwahoddwyd o leiaf ddau aelod o'r awdurdod iddo;

(iii) presenoldeb mewn cyfarfod o unrhyw gymdeithas o awdurdodau y mae'r awdurdod yn aelod ohono; a

(iv) presenoldeb mewn unrhyw ddigwyddiad hyfforddi neu ddatblygu a gymeradwywyd gan yr awdurdod.

(b) unrhyw ddyletswyddau yr ymgymerir â hwy ar ran yr awdurdod —

(i) yn unol ag unrhyw Reol Sefydlog sy'n ei gwneud yn ofynnol i aelod neu aelodau fod yn bresennol pan fydd dogfennau tendro yn cael eu hagor;

(ii) mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaeth yr awdurdod a roddwyd gan neu o dan unrhyw ddeddfiad ac sy'n rhoi'r pŵer i'r awdurdod, neu'n ei gwneud yn ofynnol iddo, archwilio neu awdurdodi archwiliad o dir ac adeiladau; ac

(c) unrhyw ddyletswydd arall a gymeradwyir gan yr awdurdod, neu unrhyw ddyletswydd arall o ddosbarth a gymeradwyir felly, yr ymgymerir â hi at ddibenion cyflawni

swyddogaethau'r awdurdod neu unrhyw un o'i bwyllgorau neu is-bwyllgorau, neu mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau o'r fath.

(2) Y dyletswyddau a eithrir gan y paragraff hwn yw'r dyletswyddau hynny y mae aelod yn derbyn tâl amdanynt heblaw o dan Ran II.

Lwfansau i fynd i gynadleddau a chyfarfodydd — cyfyngiadau ariannol ar lwfansau o dan adran 175 o Ddeddf 1972

10. Rhaid i unrhyw daliad o lwfans o dan adran 175 o Ddeddf 1972 sydd o natur lwfans presenoldeb (heblaw taliad o'r fath i aelod sydd yn gynghorydd gan awdurdod y mae Rhan II o'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddo) beidio â bod yn fwy na £32.46 am unrhyw gyfnod nad yw'n fwy na 24 awr ac i'r diben hwn mae cyfnod o 24 awr yn dechrau am 3am.

Lwfansau teithio a chynhaliaeth

11.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), bydd gan aelod hawl i gael taliadau drwy lwfans teithio neu lwfans cynhaliaeth ar gyfraddau y penderfynir arnynt bob blwyddyn gan yr awdurdod pan fydd gwariant ar deithio neu gynhaliaeth yn cael ei dynnu o raid gan yr aelod hwnnw wrth iddo gyflawni dyletswydd wedi'i chymeradwyo fel aelod o'r awdurdod.

(2) Ni fydd cyfraddau'r lwfans a benderfynir am flwyddyn o dan baragraff (1) ar gyfer teithio mewn car modur preifat yn fwy na chyfraddau'r lwfansau cyfatebol am y flwyddyn honno sy'n daladwy i aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar yr amod, os bydd cyfradd unrhyw lwfans o'r fath ar y diwrnod yn union cyn y diwrnod y daw'r Rheoliadau hyn i rym eisoes yn fwy na chyfradd y lwfans cyfatebol sy'n daladwy am y flwyddyn honno i aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, caiff cyfradd y lwfans hwnnw barhau ar y lefel honno ond ni chaiff ei chynyddu hyd nes y bydd cyfradd y lwfans cyfatebol sy'n daladwy i aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn fwy na'r hyn a delir gan yr awdurdod.

(3) Rhaid i dderbynebau priodol gyd-fynd ag unrhyw hawliad am daliad lwfansau teithio a chynhaliaeth yn unol â'r Rheoliadau hyn (gan eithrio hawliadau am deithio mewn cerbyd modur preifat) sy'n profi treuliau gwirioneddol, yn ddarostyngedig i unrhyw ofyniad neu gyfyngiad y gall awdurdod benderfynu arnynt.

(4) Ni fydd gan aelod yr hawl i unrhyw daliad o dan y Rheoliad hwn mewn perthynas â chyflawni, fel aelod o'r fath, ddyletswydd wedi'i chymeradwyo o fewn y gymuned, neu yn achos cymuned sy'n un o grŵ p o dan gyngor cymuned, o fewn ardal y grŵ p hwnnw.

RHAN V

Trefniadau Gweinyddol

Osgoi dyblygu

12.—(1) Rhaid i hawliad am daliad drwy lwfans presenoldeb, lwfans colled ariannol, lwfansau ar gyfer mynd i gynadleddau a chyfarfodydd, lwfansau teithio a lwfansau cynhaliaeth gynnwys datganiad, neu fod datganiad yn cyd-fynd â'r hawliad, wedi'i lofnodi gan yr aelod nad yw wedi gwneud ac na fydd yn gwneud unrhyw hawliad arall mewn perthynas â'r mater y mae'r hawliad yn ymwneud ag ef.

(2) Ni wneir taliad i berson o dan unrhyw ddarpariaeth o adran 176 o Ddeddf 1972 mewn perthynas â mater y gwnaed taliad yn ei gylch i'r person hwnnw yn unol â'r Rheoliadau hyn.

(3) Ni fydd gan berson sydd, yn y cyfnod a grybwyllir yn rheoliad 5 neu reoliad 6 —